

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Mae gennych yr hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol. (Erthgyl 28)

Polisi Presenoldeb

Prif egwyddorion

“Os yw addysg yn mynd i fod yn effeithiol, mae presenoldeb cyson yn rhagofyniad, a mae ei sicrhau yn gorfod bod yn flaenoriaeth i bawb yn yr ysgol” (presenoldeb ysgol – Yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth 1989)

Mae presenoldeb yn anghenraid statudol ar gyfer ein disgyblion hyd at 16 oed. Yn ogystal, mae'n anghenraid ar gyfer gyrfa ysgol lwyddiannus. Mae absenoldebau ysbeidiol cyson, a / neu rai am gyfnodau mwy estynedig yn niweidiol ar gyfer addysg ein disgyblion. Rhaid i bawb sy'n ymwneud ag addysg ein disgyblion weithio mewn partneriaeth i sicrhau presenoldeb uchel ymhlith disgyblion Bryn Tawe.

Nodau

Mae codi a chynnal lefelau presenoldeb o hyd yn flaenoriaeth ym Mryn Tawe er mwyn gallu rhoi'r cyfle gorau i bob disgybl gyrraedd eu potensial. Mae yna sawl agwedd o'n gwaith dyddiol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar godi presenoldeb:

- Gweithredu a monitro systemau cofrestru clir
- Hyrwyddo a gwobrwyo presenoldeb da
- Monitro a gweithredu ar bresenoldeb isel – gyda ymateb graddedig yn ddibynnol ar y lefel o absenoldeb
- Disgwyliadau a chefnogaeth ar gyfer rhieni

Gweithredu a monitro systemau cofrestru clir

Mae'r holl staff sydd â chyfrifoldeb am gofrestru yn glir ar ein prosesau o sicrhau bod pob disgybl a myfyriwr yn cael eu cofrestru yn bresennol er mwyn sicrhau gofynion lechyd a Diogelwch, yn ogystal â sicrhau ein bod yn gallu monitro presenoldeb yn gywir.

Mae'r swyddog presenoldeb â chyfrifoldeb am fonitro'n ddyddiol bod pob aelod o staff yn gwireddu eu dyletswydd o gofrestru ar gyfer y sesiwn boreol a phrynhawn. Fe wneir hyn y ganolog erbyn 9:30 yb a 13:45 y prynhawn.

Hyrwyddo a gwobrwyo presenoldeb da

Yn unol a'n polisi gwobrwyo, rydym yn defnyddio gwobrau yn aml fel ffordd o

gymell disgyblion i ymfalchïo yn eu presenoldeb yn yr ysgol. Fe:

- Roddir sticeri clod am bresenoldeb pob hanner tymor i ddisgyblion sydd yn cyrraedd 95% neu'n uwch.
- Mae disgyblion sydd yn bresennol am 100% o'r amser yn ystod tymor y Nadolig yn derbyn tystysgrif clod am y tymor am eu hymdrechion.
- Yn yr un modd mae disgyblion sydd yn bresennol am 100% o'r amser yn derbyn tystysgrifau amrywiol yn ystod ein seremoni gwobrwyo ar ddiwedd pob blwyddyn: un tymor = efydd; dau dymor = arian a thri tymor = aur.
- Mae disgyblion hefyd yn derbyn pwyntiau clod sy'n mynd tuag at eu cyfansymiau i ennill gwobrau yn ein seremonïau gwobrwyo ar ddiwedd tymor y Nadolig a thymor yr haf. Hefyd, mae 10 disgybl gorau pob mis / hanner tymor o ran pwyntiau clod, gyda pwyntiau presenoldeb yn cyfrannu tuag at y cyfansymiau yn cael mynd allan am ginio fel criw.
- Rydym yn rhedeg cystadleuaeth presenoldeb ar gyfer y dosbarth gorau pob mis yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 ar wahân, gyda'r dosbarthiadau gorau yn derbyn y cwpan am y mis yna.
- Pob mis fe arddangosir ystadegau ar gyfer y dosbarthiadau gorau, y disgyblion sydd wedi ennill presenoldeb 100% (Clwb 100%) ar gyfer y mis yn ogystal ag ystadegau'r ysgol gyfan yn fisol, er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion o ble rydym ni o ran ein presenoldeb.

Monitro a gweithredu ar bresenoldeb isel – gyda ymateb graddedig yn ddibynnol ar y lefel o absenoldeb

Mae rhai disgyblion yn fwy tueddol o golli ysgol na'i gilydd – gall y rhesymau gynnwys y canlynol:

- Hanes meddygol y disgybl
- Tueddiadau teuluol
- Anawsterau mynediad i'r cwricwlwm
- Bwlio
- Ffrindiau
- Gwaith ysgol
- Salwch
- Problemau o ran gofal neu gartref
- Cludiant i ac o'r ysgol
- Gwaith ac arian

Yn sgil presenoldeb isel mae gennym ymatebion amrywiol graddedig i oresgyn y problem. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✓ Arweinydd Dysgu i dderbyn allbrint o ddisgyblion sydd a % presenoldeb o dan 90% gan y swyddog presenoldeb.
- ✓ Sgyrsiau cyson rhwng y Arweinydd Dysgu a'r swyddog lles i drafod disgyblion sydd a chanrannau presenoldeb isel

- ✓ Cyfarfodydd wythnosol rhwng y Arweinydd Dysgu a'r Swyddog Lles i drafod disgyblion penodol
- ✓ Cyfweiliadau cyson (pob hanner tymor / 4 wythnos) i ddisgyblion sydd â chanrannau isel (o dan 90% - Tiwtor Personol; dan 85% Arweinydd Dysgu; o dan 80% Swyddog Lles)
- ✓ Cyfweiliadau i fonitro targedau
- ✓ Cyfarfodydd gyda rhieni disgyblion sydd a % isel yn gyson
- ✓ Targeddu teuluoedd penodol
- ✓ Noswaith rhieni penodol ar gyfer disgyblion sydd â phresenoldeb isel
- ✓ Cyfeirio at y Swyddog Lles
- ✓ Cyfarfodydd gyda'r Tim Rheoli Uwch
- ✓ Cyfarfod pwyllgor llywodraethwyr
- ✓ Cyfeirio'r achos at y llys

Fe fydd yr Arweinydd Dysgu, y Swyddog Lles, aelodau o'r Tim Rheoli Uwch yn gyson yn trafod y camau mwyaf addas ar gyfer disgyblion unigol fydd yn ymateb orau i'w gofynion.

Disgwyliadau ar gyfer ein rhieni i:

- ✓ Sicrhau presenoldeb cyson eu plant
- ✓ Weithio mewn partneriaeth gyda'r ysgol
- ✓ Sicrhau bod eu plant yn deall pwysigrwydd presenoldeb
- ✓ Gymryd diddordeb yn addysg eu plant – gofyn am eu profiadau yn yr ysgol a'u hannog nhw i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol
- ✓ Drafod unrhyw broblemau posib mae eu plant yn cael yn yr ysgol – cysylltu gyda'i athro neu bennaeth yr ysgol am unrhyw ddigwyddiadau difrifol
- ✓ Beidio â chaniatâu iddynt golli ysgol am rhesymau gwan – yn enwedig rhai na fyddai rhieni yn colli gwaith amdanynt
- ✓ Drefnu apwyntiadau ac ymweliadau ar ôl ysgol, ar y penwythnosau neu yn ystod gwyliau ysgol gan ei fod yn ffordd effeithiol o helpu i osgoi tarfu ar addysg plentyn yn yr ysgol
- ✓ Beidio â chymryd eu plant ar wyliau yn ystod amser ysgol

Cefnogaeth ar gyfer rhieni:

- ✓ Ysgol eich plentyn yw'r pwynt cyswllt cyntaf i drafod unrhyw broblemau presenoldeb.
- ✓ Fe ddylai'r ysgol gytuno ar gynllun i wella presenoldeb eich plentyn.
- ✓ Mae aros mewn cysylltiad cyson gyda'r ysgol yn hanfodol.
- ✓ Mae gan pob ysgol Swyddog Lles sy'n gallu cynnig cefnogaeth ynghlŷn â phroblemau sy'n ymwneud â phresenoldeb.

- ✓ Fe allant gynnig help arbenigol i helpu eich plentyn i wella'i presenoldeb ac ymddygiad tra eu bod yn yr ysgol.
- ✓ Mae'r swyddog lles yn gweithio gyda teuluoedd ac ysgolion i oresgyn problemau difrifol megis bwlio
- ✓ Cynigir gymorth i leihau'r baich ar ddisgyblion sydd yn ffeindio pethau'n anodd ar gyfnodau gwahanol (e.e. Os yw plentyn yn gwario tipyn o amser yn gofalu am aelod arall o'r teulu)
- ✓ Cefnogaeth oherwydd salwch hir dymor.
- ✓ Sicrhewch bod eich plentyn yn mynychu ysgol yn rheolaidd, yn cyrraedd ar amser a mynychu'r gwersi i gyd
- ✓ Dechreuwch ddatblygu'r arferion yma o oed ifanc. Os ydych yn teimlo bod eich plentyn yn cael problemau siaradwch ac athrawon yr ysgol
- ✓ Cysylltwch ag ysgol eich plentyn cyn gynted a rydych yn dechrau pryderi am bresenoldeb eich plentyn.
- ✓ Mae bod yn absennol yn golygu bod eich plentyn yn colli allan ar gyfleoedd dysgu pwysig
- ✓ Mae prydlondeb a phresenoldeb cyson yn helpu'ch plentyn i ddatblygu dau agwedd gwerthfawr yn llygaid cyflogwyr sef dibynadwyedd ac hunan drefniant.